Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 438

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Prifysgol Aberystwyth – Cyllid prosiect ymchwil Llinellau Cyffuriau

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Prifysgol Aberystwyth wedi cysylltu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gefnogi prosiect ymchwil – agweddau swyddogion heddlu tuag at blant sy'n gysylltiedig â llinellau cyffuriau.

Dylid trin plant sy'n gysylltiedig â llinellau cyffuriau fel dioddefwyr sydd wedi eu camfanteisio yn hytrach na throseddwyr. Yn aml, mae'n anodd sylweddoli hyn mewn ymchwiliadau cymhleth. Bydd y prosiect dulliau cymysg hwn yn archwilio i farn/agweddau swyddogion heddlu tuag at y plant hyn ac yn nodi unrhyw anghenion hyfforddi ar gyfer datblygu gwybodaeth a sgiliau ymhellach.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cytuno i gefnogi'r prosiect hwn a byddant yn sicrhau bod data ac adnoddau priodol yn cael eu rhannu yn unol â gofynion y prosiect.

Disgwylir i'r gweithgarwch ymchwil gael ei gyflenwi dros gyfnod o ddwy flynedd – adlewyrchir hyn yn y gost o gyflenwi: £36,430.40.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cefnogi un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sef cefnogi dioddefwyr ac atal niwed.

**Argymhelliad:**
Rhoi £36,430.40 o'r gronfa arloesdd i Brifysgol Aberystwyth ar gyfer cynnal gwaith ymchwil ar Linellau Cyffuriau.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 17/12/2025**